# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost / rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:
UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **18 Rhagfyr 2015** i:

Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| Ymatebwyr | Ysgolion | ☐ |
| | Ysgolion arbennig | ☐ |
| | Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig | ☐ |
| | Y sector addysg bellach | ☐ |
| | Sefydliadau cyn ysgol | ☐ |
| | Gweithwyr proffesiynol ym maes addysg | ☐ |
| | Undebau athrawon | ✓ |
| | Llywodraeth leol | ☐ |
| | Sefydliadau dysgu seiliedig ar waith | ☐ |
| | Byrddau Iechyd Lleol | ☐ |
| | Gweithwyr iechyd proffesiynol | ☐ |
| | Sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus | ☐ |
| | Sefydliadau'r trydydd sector | ☐ |
| | Unigolion | ☐ |
| | Arall | ☐ |

## Cwestiynau ymgynghori

Dylid darllen y cwestiynau hyn ochr yn ochr â'r Bil drafft, y Nodiadau Esboniadol drafft a'r Memorandwm Esboniadol drafft.

**Cwestiwn 1 – Cyflwyno'r term ADY ac ystod oedran 0–25**

A ydych yn cytuno bod y diffiniadau o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a nodir yn y Bil drafft yn adlewyrchu'n briodol y ffocws a ddymunwn ar anghenion addysgol ac a ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran dan sylw?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

### Sylwadau ategol

Mae'r term ADY eisoes yn dechrau disodli'r hen derminoleg, ac mae UCAC yn gefnogol i hynny.

Nid yw UCAC yn anghytuno gyda'r diffiniadau, a chroesawn yr ymagwedd fwy cydlynol o fewn y gyfraith, ac o ran trefniadau ymarferol, tuag at yr ystod oedran 0-25.

Teimlwn y byddai'r Bil a'r dogfennau atodol, yn enwedig y Cod, yn elwa o gynnig fwy o eglurder ynghylch y cyfrifoldebau parthed **y grŵp oedran cyn-ysgol**, yn enwedig pa gorff sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau. Dylid ystyried cynyddu'r pwyslais ar gydweithio yn y grŵp oedran hwn, gan fod nifer o asiantaethau gwahanol yn gallu chwarae rôl werthfawr, gan gynnwys lleoliadau nas cynhelir, a chyrff yn y sector gwirfoddol a'r trydydd sector. Rhaid cofio bod y blynyddoedd cynnar yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â rhai anghenion mewn modd fydd yn lliniaru ar yr anghenion yn nes ymlaen. Rhaid gochel rhag anwybyddu'r sector a'r cyfleoedd cynnar hyn.

Gan fod yr ystod oedran yn ymestyn i 25, holwn pam nad oes darpariaeth ar gyfer trefniadau yn y **sectorau hyfforddiant, prentisiaethau ac Addysg Uwch**?

Mae gennym bryder na fydd y Bil ar ei ffurf bresennol yn mynd i'r afael â'r anawsterau cyfredol o ran sicrhau **darpariaeth gyfrwng Cymraeg** i blant a phobl ifanc, ac yn eu bodloni nhw a'u teuluoedd o ran gweithredu'r prosesau yn eu dewis iaith. Gallai ymestyn yr ystod oedran waethygu'r sefyllfa, o ran diffyg capasiti o fewn y gweithluoedd perthnasol, er ei fod i'w groesawu mewn egwyddor.

Rhaid cofio, ymhlith y grŵp oedran cyn-ysgol yn arbennig, bod plant sy'n uniaith Gymraeg. Byddai unrhyw asesiad o blentyn uniaith, neu unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn gorfod bod yn y Gymraeg i fod yn ystyrlon. A dadleuwn fod yr egwyddor yr un mor bwysig ar gyfer yr ystod oedran gyfan. Nid oes sylw dyledus wedi'i roi i'r mater canolog hwn yn y Bil ei hun nac yn y dogfennau cefnogol.

Un pryder arall sydd gennym yw'r amodau yn Adran 29 y Bil ynghylch pryd na ddylid **ffafrio addysg mewn ysgol prif ffrwd**. Yr amodau a amlinellir yw bod hynny'n anghydnaws (a) â dymuniadau rhiant y plentyn, neu (b) â'r ddarpariaeth o addysg

effeithlon i blant arall. Mae'n ein taro ni'n rhyfedd iawn nad yw anghenion y plentyn ei hun ar frig y rhestr hon. Mae modd dychmygu amgylchiadau ble fyddai'r rhieni'n dymuno i'r plentyn fynychu'r ysgol brif-ffrwd, ac na fyddai hynny'n tarfu ar addysg plant eraill - ond eto i gyd, nad dyna fyddai o les pennaf i'r plentyn ei hun am y byddai'n elwa o ddarpariaeth fwy arbenigol. Mae'n egwyddor hollol sylfaenol mai lles y plentyn ddylai gael blaenoriaeth.

**Cwestiwn 2 – Proses gynllunio unedig sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Lefel y cyfrifoldeb ar ysgolion**

Yn sgil dileu Datganiadau, mae'n ymddangos bod cryn dipyn o gyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo o Awdurdodau Lleol i ysgolion unigol, o ran gwneud penderfyniadau (*determinations*) ac o ran llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol.

Mae cyfrifoldeb sylweddol gan ysgolion ar hyn o bryd, ond o leiaf yn yr achosion hynny ble mae gan blentyn datganiad, mae'n glir mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth. Bydd angen sicrhau bod ffiniau hollol glir rhwng cyfrifoldebau gwahanol asiantaethau, a bod cyd-ddealltwriaeth ynghylch ble mae'r trothwyon o ran trosglwyddo cyfrifoldeb rhwng y naill gorff â'r llall. Bydd cysondeb ar draws Cymru yn y materion hyn yn anhepgor - sy'n ddadl arall dros roi canllawiau cryf yn y Cod.

Dan y drefn newydd, mae'n bosib y bydd y trothwy ar gyfer pryd fydd y cyfrifoldeb yn trosglwyddo o lefel ysgol i lefel Awdurdod Lleol yn uwch – sef dim ond pan fydd (a) penderfynu ar y mater y tu hwnt i allu'r ysgol (b) anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc yn galw am ddarpariaeth na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau.

Os yw'r dadansoddiad hwn yn gywir, mae angen cydnabod hynny, a chynllunio ar gyfer y sgil-effeithiau yn arbennig felly yn nhermau:

- neilltuo adnoddau cyllidebol digonol
- sicrhau lefelau staffio digonol
- darparu lefel priodol ac amserol o ran hyfforddiant (i gyrff llywodraethu, arweinwyr ysgol, cydlynwyr ADY, athrawon a chynorthwywyr dysgu)
- sicrhau bod cyngor arbenigol amserol ar gael i ysgolion

Mae'r straen ar ysgolion bach, ble mae lefelau staffio'n isel iawn – ond eto ble mae'r

ganran o blant ag ADY yn gallu bod yn uchel - yn debygol o fod yn sylweddol iawn.

Nid yw'r rhain yn faterion y disgwylid eu gweld ar wyneb y Mesur, ond byddem yn disgwyl gweld cyfeiriadau yn y Cod, ac o bosib yn y Memorandwm Esboniadol.

Er mwyn sicrhau prosesau priodol, a chysondeb o un sefydliad i'r llall, teimlwn y gallai'r Cod fynd i fwy o fanylder ynghylch yr union broses y dylid ei dilyn ar gyfer gwneud penderfyniadau (*determinations*) am ADY e.e. a ddylid ymgynghori â gwasanaethau arbenigol megis seicolegydd addysg?

**Lefel y cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith i'r Cydlynydd ADY**

Croesawn y ffaith bod disgrifiad o rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd yn y Cod drafft, a chytunwn yn llwyr y dylai'r Cydlynydd gael llais cydnabyddedig ar yr Uwch Dîm Rheoli gan fod y rôl yn un strategol â chyfrifoldebau rheoli, a bod angen perthynas gwaith agos gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu. Dylai fod yn aelod o'r Uwch Dîm yn rhinwedd y ffaith ei fod yn (d)deiliad y swydd Cydlynydd ADY, ac heb fod yn Bennaeth, Dirprwy Bennaeth na Phennaeth Cynorthwyol oherwydd nid ydym yn rhagweld y byddai'n bosib cydbwyso cyfrifoldebau'r Cydlynydd ADY gydag unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol eraill.

Ar hyn o bryd, nid oes digon o fanylder ynghylch y gofynion posib o ran cymwysterau ar gyfer swydd y Cydlynydd.

Mae'n edrych yn glir o ddarllen y disgrifiad o'r rôl a'r cyfrifoldebau mai swydd llawn amser yw hon. Anodd iawn yw ceisio dychmygu ymgymryd â dyletswyddau o'r fath ochr yn ochr ag amserlen ddysgu a hynny yn sgil y llwyth gwaith sylweddol iawn (gan gynnwys materion rheolaethol), y lefel o arbenigedd sydd ei angen, a'r angen cynyddol am hyblygrwydd o ran amser i allu cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid - o fewn yr ysgol a thu allan - yn ystod y diwrnod gwaith. Credwn y dylid datgan hynny'n glir yn y Cod. Mae'n bosib y dylid ystyried neilltuo cymorth gweinyddol i'r Cydlynydd ADY, cymaint yw/fydd gofynion gweinyddol y swydd.

Yn yr achosion hynny ble nad yw'n ymarferol i apwyntio un person llawn amser, er enghraifft, mewn ysgolion cynradd bach, credwn y dylid nodi'r posibilrwydd o benodi Cydlynydd ADY llawn amser ar gyfer clwstwr o ysgolion. Ni chredwn ei fod yn briodol i'r Cod aros yn fud ar y mater hwn.

Mae'n gwestiwn gennym a yw geiriad y Bil Drafft yn caniatáu cyd-benodi o'r fath am fod Adran 46(2) yn dweud bod yn rhaid i ysgol neu Goleg Addysg Bellach 'ddynodi aelod **<u>o'i</u>** staff' ('*must designate a member of **<u>its</u>** staff*') fel Cydlynydd ADY (fy mhwyslais i).

Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i rai materion cyflogaeth:

- rhaid sicrhau eglurder ynghylch pwy yw'r cyflogwr os gwneir penodiad ar y cyd
- byddai UCAC yn dadlau dros sicrhau fod y Cydlynydd yn parhau ar dâl ac amodau athro (telerau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol – *STPCD*) hyd yn oed os yw'r swydd yn un digyswllt (heb ddyletswyddau dysgu)
- byddai angen ystyried sut i sicrhau cydnabyddiaeth o ran tâl sy'n gymesur â'r cyfrifoldebau sylweddol iawn, gan y byddai peryg na fyddai swydd ddigyswllt

yn gymwys am Lwfans Anghenion Addysgol Arbennig, na Lwfans Cyfrifoldeb Addysg a Dysgu (CAD/*TLR*) dan delerau cyfredol y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol

- bydd angen sicrhau bod swydd-ddisgrifiadau yn cael eu diwygio, mewn trafodaeth a gyda chytundeb deiliad presennol y swydd, yn sgil y newidiadau arfaethedig, ac awgrymwn y dylid nodi hynny yn y Cod

O ystyried bod cyfartaledd o 22.5% o ddisgyblion yn ysgolion Cymru ag Anghenion Addysgol Arbennig (yn ôl Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol, Awst 2015), mi fydd yn bwysig sicrhau bod lefel yr wybodaeth a fynnir yn y Cynllun Datblygu Unigol yn gymesur â natur anghenion a darpariaeth arbenigol y disgybl. Fel arall, bydd y llwyth gwaith yn gwbl lethol, gyda'r peryg bod prinder amser a sylw i ddelio'n briodol â phob achos, p'un ai'n gymhleth a dwys, neu'n gymharol syml.

Mi allai llunio templed cenedlaethol ar gyfer y CDUau fod yn fanteisiol. Mi fyddai hynny'n osgoi'r gorchwyl o lunio templed eu hunain i bob Cydlynydd a lleoliad unigol (neu bob Awdurdod). Yn ogystal, mi allai arwain at fwy o gysondeb rhwng Cynlluniau, a fyddai yn ei dro yn hwyluso unrhyw newidiadau o ran lleoliad a chydweithio traws-ffiniol.

**Anghenion Hyfforddiant a Chymwysterau**

Er mwyn sicrhau'r arbenigedd sy'n angenrheidiol ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol, bydd angen hyfforddiant ymhlith staff presennol ysgolion, Colegau Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol, a bydd angen cynllunio ar gyfer cynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o faterion ADY ymhlith gweithlu'r dyfodol. Byddai'n fanteisiol yn ogystal i gynyddu'r sylw ar gyrsiau hyfforddiant ar bob lefel i sut i addysgu plant ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd angen ystyried newidiadau i Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (o bosib yn rhan o ddiwygiadau Addysgu Athrawon Yfory/Yr Athro John Furlong), modiwl o fewn y Cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol, ac elfennau yng nghyrsiau hyfforddiant Cynorthwywyr Dysgu.

**Amserlen llunio CDU**

Cyfeiria'r Cod, ym mharagraffau 315-321, at amserlenni ar gyfer llunio Cynlluniau Datblygu Unigol. Holwn pam bod angen tair wythnos yn ychwanegol ar Awdurdod Lleol (10 wythnos) o'i gymharu ag ysgol neu Goleg Addysg Bellach (7 wythnos). Gwyddom fod yr achosion y mae'r Awdurdodau Lleol yn ymdrin â nhw yn debygol o fod yn achosion mwy cymhleth; fodd bynnag, mae tair wythnos ychwanegol yn amser sylweddol, yn enwedig i deuluoedd sy'n aros am gefnogaeth a darpariaeth.

**CDU i berson ifanc**

Mae gennym bryder am Adran 11(2) ac Adran 13 (3) y Bil sy'n nodi nad oes rhaid darparu Cynllun Datblygu unigol os nad yw'r person ifanc yn cydsynio i hynny. Er ein bod yn cytuno â'r egwyddor bod angen i lais person ifanc fod yn ddylanwad cryf ar y broses, teimlwn y gall bod amgylchiadau pan na fydd y person ifanc yn gwneud penderfyniad sydd o les pennaf iddo/iddi. Lles y person ifanc ddylai fod yn brif ystyriaeth ym mhob achos, ac efallai bod angen mynd i fwy o fanylder ynghylch y mathau o amgylchiadau ac ystyriaethau pan allai bod achos dros beidio gweithredu

yn unol â dymuniadau'r person ifanc.

**Cyfrifoldebau Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG**

Adran 14 (7): pam nad yw'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a fynnir gan Dribiwnlys Addysg Cymru 'oni bai bod y Bwrdd neu'r ymddiriedolaeth yn cytuno i wneud hynny'? Ar ba sail y gallant beidio â chytuno i sicrhau'r ddarpariaeth? Mi allai'r ddihangfa hon danseilio'r hawl i ddarpariaeth briodol.

**Y Gymraeg**

Mae UCAC - a nifer o fudiadau eraill sy'n cynrychioli miloedd o unigolion rhyngom ni - wedi codi mater y Gymraeg ym mhob ymgynghoriad ar y mater hwn dros flynyddoedd bellach, ac nid ydym wedi gweld unrhyw welliant o un drafft i'r nesaf, er i'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg nodi yr 'ystyriwyd pob ymateb a ddaeth i law yn sgil ymgynghoriadau blaenorol.'

Nid yw'r dogfennau yn cydnabod bod problemau systemig o ran sicrhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Nid ydynt ychwaith yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cymaint â phosib o'r prosesau yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â dewis iaith plant, pobl ifanc a/neu rieni. Nid ydynt felly yn cynnig unrhyw ffordd o fynd i'r afael â'r anawsterau a'r gwendidau hyn.

Dylai bod hawl gan unrhyw blentyn, person ifanc a'u teuluoedd i dderbyn y ddarpariaeth a'r gwasanaeth priodol drwy eu dewis iaith - yn Gymraeg neu'n Saesneg. Ni chyfeirir at y materion hyn o gwbl yn y Bil nac yn y Cod. O ran creu fframwaith cyfreithiol cadarn, byddid wedi disgwyl - o leiaf - cyfeiriad yn y Bil at egwyddorion Mesur y Gymraeg (2011) sy'n datgan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Os nad oes modd i'r broses gynllunio ddigwydd yn newis iaith y plentyn/person ifanc a/neu rieni, mae peryg eu dieithrio o'r cychwyn.

Cawsom siom o'r mwyaf i weld na roddwyd sylw teilwng i faterion ieithyddol o ran sgiliau'r gweithlu yn yr 'Asesiad o ofynion datblygu'r gweithlu anghenion addysgol arbennig' a gynhaliwyd yn ddiweddar gan yr Uned Pobl a Gwaith ar ran Llywodraeth Cymru. Edrychwyd ar lefel y sgiliau ADY ymhlith y gweithlu cyfrwng Cymraeg, ond collwyd y cyfle i gynnwys yr iaith Gymraeg fel un o'r sgiliau, ar draws y gweithluoedd cyfan, yr ymchwiliwyd iddynt.

Dywed y Memorandwm Esboniadol (paragraff 7.255) bod cynigion y Bil drafft yn 'cefnogi' strategaeth 'Iaith Fyw: Iaith Byw' a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, a'u bod yn 'ategu gofynion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg'. Ymhellach, ym mharagraff 7.256, dywed 'Mae ein cynigion yn cefnogi'r camau i sicrhau darpariaeth Gymraeg. Bydd y Cod yn rhoi gwybodaeth bellach ynghylch darpariaeth Gymraeg.' Nid yw'n glir i ni sut mae'r cynigion yn y Bil Drafft yn 'cefnogi' nac yn 'ategu' darpariaethau'r Strategaethau, gan nad yw unwaith yn crybwyll y Gymraeg. Ac nid yw'r Cod yn 'rhoi gwybodaeth bellach ynghylch darpariaeth Gymraeg.'

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cynnwys rhestr o bwyntiau y 'mae'n debygol y bydd y Cod drafft yn cynnwys' mewn perthynas â'r Gymraeg, ond ar y cyfan nid yw'r pwyntiau hyn (y datganiadau o egwyddor) yn ymddangos yn y fersiwn

drafft o'r Cod a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Bil.

Teimlwn mai gwendid yr Asesiad Effaith yw ei fod yn canolbwyntio ar y ffaith y bydd y cynigion deddfwriaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ag ADY *yn gyffredinol*, gan gynnwys y rheiny sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ond heb fanylu ar natur yr effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg *yn benodol*.

Mae'r cyfeiriad ym mharagraff 14 o'r Cod at Safonau'r Gymraeg yn gyfan gwbl annigonol. Er bod Awdurdodau Lleol yn dod dan gwmpas y Safonau, nid yw'r safonau'n gyson o un Awdurdod i'r llall (h.y. mae hysbysiad cydymffurfio yn pennu pa safonau sy'n benodol gymwys i bob corff), ac felly ni fyddant yn creu darpariaeth gyson ledled Cymru o ran y gyfundrefn ADY. Yn bwysicach byth, nid yw ysgolion yn ddarostyngedig i'r Safonau. Nid yw Colegau Addysg Bellach ychwaith ar hyn o bryd, er bod amserlen ar gyfer eu cwmpasu yn y dyfodol. Ni ellir dibynnu ar y Safonau i greu'r lefel priodol o ddarpariaeth na'r cysondeb y mae wir ei angen, ac ni ddylai'r Bil na'r Cod guddio y tu ôl iddynt gan obeithio y byddant yn datrys popeth.

Nid ydym o'r farn felly bod y Llywodraeth yn gwneud digon i osgoi neu i leihau'r risg o wahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Credwn y dylai'r Bil ei hun gynnwys datganiad diamwys sy'n nodi'r disgwyliadau o ran darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg – o ran y ddarpariaeth addysgol yn ogystal â'r gallu i ymwneud â'r broses gyfan.**

**Dylai'r Cod fynd i fanylder ynghylch y dyletswyddau, y disgwyliadau a'r ymrwymiadau ar lefel ymarferol**, gan gynnwys yn Adran 31: Diwygio'r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru, ble dylid nodi yn y gofrestr drwy gyfrwng pa ieithoedd y cynigir y ddarpariaeth.

**Cwestiwn 3 – Dyheadau uchel a gwell deilliannau**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae'n bosib bod y Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo yn gyffredinol, ond nid oes unrhyw sicrwydd bod hynny'n wir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, mae risg gwirioneddol o wahaniaethu yn eu herbyn.

**Cwestiwn 4 – Rhagor o gydweithredu**

| |
|---|
| A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu sylfaen i wella'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY? |

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | X | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae’r pwyslais ar gydweithio i’w groesawu – rhaid osgoi dyblygu diangen a sicrhau cyd-drafodaeth rhwng yr arbenigwyr yn yr amrywiol meysydd er mwyn cynllunio a darparu’n effeithiol ar gyfer y plant a phobl ifanc dan sylw.

Fodd bynnag, mae rhai ystyriaethau pwysig.

**Amser a chapasiti**: mae angen amser sylweddol ar gyfer cydlynu’r math hwn o gydweithio, ac mae angen i’r person â’r cyfrifoldeb (fel arfer y Cydlynydd ADY) fod ar gael am gyfnodau drwy gydol y diwrnod gwaith. Nid yw hyn yn cydweddu ag amserlen ddysgu.

Bydd angen sicrhau bod digon o gapasiti o fewn cyrff eraill yn ogystal i ymdopi â’r newidiadau arfaethedig. Mae’r cyfrifoldebau newydd ar Awdurdodau Lleol dros y grŵp oedran 18-25 yn enghraifft o gynnydd sylweddol y bydd angen cynllunio, a chyllidebu’n ofalus ar ei gyfer.

**Rhannu gwybodaeth:** bydd angen sicrhau bod systemau rhannu gwybodaeth cadarn yn eu lle er mwyn gwarantu (a) bod gan sefydliadau'r hawl i rannu gwybodaeth berthnasol a (b) bod y dulliau rhannu gwybodaeth yn ddiogel (*secure*).

Yn ogystal, bydd angen gofal er mwyn sicrhau nad yw ffiniau Awdurdodau Lleol na chyrff iechyd yn achosi problemau o ran cydweithio a rhannu data, yn enwedig pan fydd teulu plentyn neu berson ifanc yn symud, neu’n mynychu sefydliad addysgol mewn ardal wahanol.

**Iaith:** mae gwaith aml-asiantaeth yn aml iawn yn golygu bod popeth yn digwydd yn Saesneg. Mae'r Byrddau Iechyd yn arbennig yn dueddol o fynnu derbyn pob dogfennaeth yn Saesneg, neu'n bygwth y bydd oedi yn y broses i ganiatáu am gyfieithu.

Mae'r math hwn o gyfundrefn yn gorfodi pobl i ddewis rhwng derbyn gwasanaeth prydlon ar y naill law, neu wasanaeth Gymraeg ar y llall. Mae'r holl broses yn creu anghymhelliad cryf iawn rhag defnyddio'r Gymraeg. Dylid cynnwys dyletswydd ar wyneb y Mesur ar yr asiantaethau i gydweithio a rhannu gwybodaeth yn y Gymraeg os mai dyna ddymuniad y plentyn/person ifanc/rhieni.

**Cwestiwn 5 – Osgoi anghytundebau, datrys anghytundebau'n gynharach a hawliau clir a chyson i apelio**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn cynnig fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundeb, a bod sylfaen gadarn i'r darpariaethau'n ymwneud ag apelio?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | X | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylid cyfeirio'n benodol, gan gynnwys ym Mhenodau 20 a 21 y Cod, at yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfeiriadau yn y Cod drafft at '*suitable format*' a '*plain language*', ond dim cyfeiriad at gyfrwng iaith y prosesau.

**Cwestiwn 6 – Dogfennau ategol**

A fyddech cystal â nodi unrhyw adborth defnyddiol sydd gennych ynghylch y dogfennau ategol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, h.y. y Memorandwm Esboniadol drafft (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), yr holl Asesiadau o Effaith a'r Cod ADY drafft (a gyhoeddir yn yr hydref).

**Y Gymraeg (yn y Cod, y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiadau o Effaith)**

Nid oes unrhyw un o'r dogfennau ategol yn cydnabod bod problemau systemig o ran sicrhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Nid ydynt ychwaith yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cymaint â phosib o'r prosesau yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â dewis iaith plant, pobl ifanc a/neu rieni. Nid ydynt felly yn cynnig unrhyw ffordd o fynd i'r afael â'r anawsterau a'r gwendidau hyn.

Dyma rai enghreifftiau o fannau y mae UCAC yn galw am sylw penodol i'r Gymraeg ar wyneb y Cod:

- **Pennod 2 y Cod**: dylai'r hawl i gael darpariaeth Gymraeg ac ymdrin â'r prosesau drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei nodi yn yr adran Egwyddorion; dylai bod cyfeiriadau yn y cyd-destun hwn at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (gofynion ieithyddol), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, a Iaith Fyw: Iaith Byw (Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru)
- **Pennod 4 y Cod: Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc:** mae'r bennod hon yn ymdrin â dyletswyddau i annog cyfranogiad plant, eu rhieni a phobl ifanc yn y broses, a chamau ymarferol y dylid eu cymryd i hwyluso hynny. Fodd bynnag, ni sonnir unwaith am bwysigrwydd parchu dewis iaith y plant a'u rhieni, a phobl ifanc yn y broses hon.
- **Pennod 5 y Cod** (mewn perthynas ag Adran 7 y Bil: Cyngor a Gwybodaeth): Teimlwn yn gryf iawn y dylid nodi'n ddiamwys bod disgwyl i'r wybodaeth a chyngor y cyfeirir atynt fod ar gael yn y Gymraeg – boed ar bapur, yn electronaidd neu ar lafar. Dylai'r gofyniad rhwymo nid yn unig yr Awdurdodau

Lleol, ond unrhyw ddarparwyr allanol sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ran yr Awdurdodau Lleol. Os oes cytundeb lefel gwasanaeth, disgwylir i ddarpariaeth ddwyieithog fod yn amod o'r cytundeb.

- **Pennod 10 y Cod: Cynnwys Gorfodol y Cynlluniau Datblygu Unigol:** Nodir '*the language spoken at home by the child or young person*' fel un o'r darnau o wybodaeth sy'n ofynnol; awgrymwn y dylid addasu hynny i nodi '*languages*' yn y lluosog, gan mai dyma'r realiti i gyfran helaeth o gartrefi Cymru. Ond yn bwysicach na hynny, nid oes unrhyw sôn yma am (a) cyfrwng iaith addysg y plentyn/person ifanc (b) ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg yr hoffai'r plentyn/person ifanc a'i rieni ymdrin â'r broses ADY. Mae hyn yn fwlch amlwg a phwysig.
- **Pennod 11 y Cod: Canllaw ar gynnwys y Cynlluniau Datblygu Unigol:** fel uchod, mae diffyg cyfeiriadau at arferion a dewisiadau ieithyddol yn nodweddu'r bennod hon. Er y sonnir am '*communication and/or access requirements relevant to the child, young person or their families*', rydym yn gadarn o'r farn y dylid cyfeirio'n benodol at y Gymraeg, ac at yr angen i gymryd i ystyriaeth a pharchu dewisiadau ieithyddol yr unigolion dan sylw.
- **Pennod 14 y Cod: Trafnidiaeth:** mi ddylai paragraff 355 nodi fod y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.'
- **Pennod 15, paragraff 373 y Cod** (mewn perthynas ag Adran 26 y Bil: Dyletswydd i dderbyn plant i sefydliadau a enwir)**:** dylai cyfrwng iaith y ddarpariaeth fod yn un o'r ystyriaethau o ran a yw'r addysg a ddarperir yn addas.
- **Penodau 20 a 21 y Cod:** Dylid cyfeirio'n benodol at yr hawl i gael ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau ac apeliadau at y Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai'r rhain oll fod yn ofyniadau gorfodol yn y Cod Ymarfer fel bod eglurder ynghylch y cyfrifoldebau, y dyletswyddau a'r hawliau. Yn dilyn egwyddor sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ni ddylai darparu neu weinyddu'r broses yn y Gymraeg olygu oedi, na gwasanaeth israddol mewn unrhyw ffordd i'r defnyddwyr.

**Adnoddau (yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol)**

Bydd cyflwyno system newydd ar gyfer ADY yn gofyn am adnoddau sylweddol. Heb os, bydd costau uwch yn y cyfnod pontio (ar gyfer lefelau uwch o hyfforddiant ym mhob sector perthnasol, ac ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ar gyfer gosod systemau newydd yn eu lle). Mae'n bosib y bydd costau hirdymor uwch yn ogystal. Nid ydym wedi ein darbwyllo bod gwaith digon trylwyr wedi'i gyflawni hyd yma i greu darlun manwl a chywir o'r oblygiadau cost – yn enwedig i Awdurdodau Lleol, ond i ysgolion, colegau a chyrff eraill yn ogystal.

**Cwestiwn 7**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

**Sicrhau ansawdd**

Beth yw'r trefniadau a phwy sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y prosesau a'r ddarpariaeth? Ai'r prosesau apêl a'r Tribiwnlys yw'r prif fecanweithiau? Bydd rôl gan Estyn o ran ysgolion, Colegau Addysg Bellach (ac Awdurdodau Lleol?), ond beth am randdeiliaid eraill megis Byrddau Iechyd?

Mae Adran 50 y Bil, a pharagraffau 236-238 o'r Cod yn ymwneud â 'Hawl awdurdod lleol i gael mynediad i fangreoedd ysgolion a sefydliadau eraill.' Cymrwn mai at ddibenion sicrhau ansawdd y mae'r darpariaethau hyn yn cael eu gwneud. Teimlwn y dylid ymhelaethu ar yr hyn a gynhwysir yn y Cod am y mater hwn o ran y 'specific circumstances' pan ganiateir mynediad, ac at ba bwrpasau yn union. Er enghraifft, a yw mynediad o'r fath yn cynnwys yr hawl i arsylwi gwersi?

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐